# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 2 Tachwedd 2011**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(26)

**1. Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy**

Gofynnwyd yr 11 cwestiwn cyntaf.

**14.16**
**2. Cwestiynau i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth**

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Trosglwyddwyd cwestiwn 1 i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau.

**15.06**
**3. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

**NDM4838 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i hwyluso creu swyddi drwy alluogi'r sector preifat i dyfu drwy:

a) canolbwyntio gwariant datblygu economaidd ar fesurau sy'n hybu twf busnes yn uniongyrchol;

b) adolygu rheoliadau Llywodraeth Cymru sy'n effeithio ar fusnesau yng Nghymru; ac

c) cynorthwyo pobl yng Nghymru i ennill sgiliau fel bod mwy o gyfleoedd cyflogaeth yn agored iddynt.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**16.06**
**4. Dadl Plaid Cymru**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4839 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i lunio cynllun gweithredu ar gyfer y diwydiant llaeth, sy'n mynd i'r afael â'r arferion masnachol annheg sy'n bodoli yn y gadwyn gyflenwi, ac sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer y canlynol:

a) contract gwaelodlin llaeth amrwd safonol;

b) cod ymarfer y gellir ei orfodi i sicrhau trafodion teg rhwng ffermwyr a chwmnïau llaeth; ac

c) cyhoeddi gwybodaeth dryloyw am ddosbarthiad elw a phrisiau cyfanwerthu.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 56 | 0 | 0 | 56 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**16.54**

**5. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4840 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu methiant Llywodraeth Cymru i ddefnyddio arian yr Undeb Ewropeaidd yn effeithiol er mwyn helpu i godi CMC cymharol rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd;

2. Yn cydnabod cyfraniad gwerthfawr y rhaglenni sgiliau lefel uwch ac arloesedd, megis y cynllun POWIS, at godi CMC;

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu cynllun i olynu POWIS gyda nodau ac amcanion tebyg.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 40 | 56 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal asesiad cynhwysfawr o'i defnydd o arian yr UE yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 5 | 56 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn:

Yn nodi â phryder y gostyngiad yn CMC Gorllewin Cymru a'r Cymoedd o 66.8 y cant o gyfartaledd yr UE yn 2000 i 64.4 y cant (y ffigur diweddaraf sydd ar gael) yn 2008.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 29 | 56 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn:

Yn cydnabod bod angen ymgysylltu'n ehangach â'r sector preifat i feithrin twf cynaliadwy yn CMC y rhanbarthau hyn.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 56 | 0 | 0 | 56 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn:

Yn cydnabod bod rhaid i gynlluniau a ariannir gan yr UE symud oddi wrth y 'rheoliadau ticio blychau' a chanolbwyntio ar ganlyniadau hyfyw.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 56 | 0 | 0 | 56 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4840 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal asesiad cynhwysfawr o'i defnydd o arian yr UE yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.

2. Yn cydnabod bod rhaid i gynlluniau a ariannir gan yr UE symud oddi wrth y 'rheoliadau ticio blychau' a chanolbwyntio ar ganlyniadau hyfyw.

3. Yn cydnabod bod angen ymgysylltu'n ehangach â'r sector preifat i feithrin twf cynaliadwy yn CMC y rhanbarthau hyn.

4. Yn cydnabod cyfraniad gwerthfawr y rhaglenni sgiliau lefel uwch ac arloesedd, megis y cynllun POWIS, at godi CMC;

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu cynllun i olynu POWIS gyda nodau ac amcanion tebyg.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 29 | 56 |

**Gwrthodwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**18.01**
**Cyfnod Pleidleisio**

**18.05**
**6. Dadl Fer**
**NDM4837 Christine Chapman (Cwm Cynon):**

Trefi ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain?

Daeth y cyfarfod i ben am 18.27.

**Bydd y Cynulliad yn cwrdd eto yn y Cyfarfod Llawn am 13:30 dydd Mawrth, 8 Tachwedd 2011**